

# Datganiad Hygyrchedd ar gyfer gwefan llaneilian.org.uk/

Mae'r datganiad hygyrchedd hwn yn cymhwyso at wefan Cyngor Cymuned Llaneilian sef <http://www.llaneilian.org.uk/>

Gweithredir y wefan gan Gyngor Cymuned Llaneilian.

Darperir yr holl gynnwys gan y Clerc ar ran y cyngor Cymuned.

Rydym am i gymaint o bobl a phosibl gallu defnyddio'r wefan hon. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y dylech allu:

- Llywio drwy y rhan fwyaf o'r wefan wrth ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- Llywio drwy y rhan fwyaf o'r wefan wrth ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd
- Mae'r safle'n ymddangos yn gywir mewn porwyr cyfredol ac mae defnyddio cod HTML/CSS sy'n cydymffurfio â safonau yn golygu y bydd unrhyw borwyr yn y dyfodol hefyd yn ei arddangos yn gywir.
- Cynyddu neu leihau maint y testun a ddangosir ar y wefan hon - daliwch yr allwedd Ctrl a'r "+" neu "-" (neu sgrolio olwyn y llygoden) i addasu maint.

Rydym hefyd wedi gwneud testun y wefan mor syml â phosibl i'w ddeall.

Er ein bod yn ceisio cadw at y canllawiau a'r safonau derbynol ar gyfer hygyrchedd a defnyddioldeb, nid yw bob amser yn bosibl gwneud hynny ym mhob rhan o'r wefan.

Mae gan [AbilityNet gyngor ar wneud eich dyfais yn haws i'w defnyddio os oes gennych anabledd.](#)

Yn ogystal, efallai y byddwn yn sicrhau bod Teclyn hygyrchedd Gwefan ar gael ar y wefan. Mae hyn yn caniatáu i ymwelwyr newid rhai agweddau ar y wefan i'w gwneud yn haws cael gafael ar nhw. Mae hyn yn ein galluogi i wella ei gydymffurfiaeth â Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG 2.1) a chaniatáu i ddefnyddwyr .

Mae'r wefan yn ddwyieithog ei natur, yn cynnwys cymysgedd o Gymraeg a Saesneg.

## Pa mor hygyrch yw'r wefan hon

Rydym yn gwybod nad yw rhannau o'r wefan hon yn gwbl hygyrch:

- Efallai y bydd cyferbynnedd ychydig o'r testun ar rai o'r tudalennau yn is na 'r hyn fyddai'n ddelfrydol.
- Ni allwch addasu uchder llinell na bylchiad y testun.
- Nid yw rhan fwyaf o hen ddogfennau PDF yn gwbl hygyrch i feddalwedd darllenydd sgrin.
- Ni allwch sgiipio i'r prif gynnwys wrth ddefnyddio rhaglen darllenydd sgrin.

- Mae cyfyngiad ar ba mor bell y gallwch chwyddo'r map ar ein tudalen "cysylltu â ni".

## **Beth i'w wneud os na allwch gael mynediad i rannau o'r wefan hon**

Gallwch weld ein dogfennau mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys:

- Allbrintiau ffisegol
- Print bras

I wneud hyn neu i ofyn am fformat gwahanol, cysylltwch â'r Cyngor Cymuned drwy'r wefan hon, e-bost, a ffôn neu wyneb yn wyneb.

## **Adborth a gwybodaeth cysylltu**

Am wybodaeth ar y wefan hon mewn ffurf wahanol fel PDF hygyrch, print bras, ffurf hawdd ei ddeall, recordio clywedol neu Braille, anfonwch e-bost at:

- [post@cyngorgwalchmai.co.uk](mailto:post@cyngorgwalchmai.co.uk)

Fe wnawn ystyried eich cais ac ymateb ichi ymhen 10 niwrnod.

## **Adrodd ar broblemau hygyrchedd y wefan hon**

Rydym wastad yn edrych ar ffyrdd i wella hygyrchedd y wefan hon. Pe byddech yn darganfod unrhyw broblemau sydd heb eu rhestru ar y dudalen hon, neu'n meddwl nad ydym yn cyrraedd gofynion hygyrchedd, cysylltwch â chlerc y Cyngor – [post@cyngorgwalchmai.co.uk](mailto:post@cyngorgwalchmai.co.uk).

### **Gweithdrefn gorfodi**

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Cyhoeddus (Gwefannau a Rhaglenni Symudol) 2018 (Rhif 2) ('y rheoliadau hygyrchedd'). Pe byddech yn anfodlon ar sut rydym wedi ymateb i'ch cwyn, [cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynorthwyo a Chynghori ar Gydraddoldeb](#).

## **Gwybodaeth Dechnegol am hygyrchedd y wefan hon**

Mae Cyngor Cymuned Llanelian yn ymroddedig i wneud ei wefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Cyhoeddus (Gwefannau a Rhaglenni Symudol) 2018 (Rhif 2).

### **Statws Cydymffurfio**

Rhannol gydymffurfio â fersiwn [2.1 Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefan Safon AA](#), a hynny o ganlyniad i faterion yn ymwneud â chyferbynnedd testun ar ychydig o dudalennau, dim testun

amgen ar gyfer rhai hysbysiadau a ddangosir fel JPG neu PDF a ddefnyddir i arddangos cofnodion fel y rhestrir isod.

## Cynnwys Anhygyrch

Mae'r cynnwys a restrir isod yn anhygyrch am y rhesymau canlynol.

### Anghydfurfio â rheoliadau hygyrchedd

Nid oes gan rhai o'r delweddau destun amgen, felly ni all unigolion sy'n defnyddio rhaglen darllynydd sgrin gael gafael ar yr wybodaeth. Mae hyn yn methu maen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG 2.1 (cynnwys di-destun). Rydym yn cynllunio i ychwanegu testun amgen ar gyfer pob delwedd erbyn Rhagfyr 2020. Pan fyddwn yn cyhoeddi cynnwys newydd byddwn yn sicrhau y bydd ein delweddau yn cyrraedd safonau hygyrchedd.

Mae rhai dolennau PDF yn agor mewn tudalen newydd. Efallai na fydd pobl sy'n defnyddio ffurf hawdd ei ddarllen yn sylwi bod tab newydd wedi agor. Mae hyn yn methu maen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG 2.1 (cynnwys di-destun). Erbyn Rhagfyr 2020, bydd rhybudd yn cael ei roi ar dudalen y Cofnodion i esbonio'r ymarweddiad hwn.

Mae rhai o'r hysbysiadau ar y wefan wedi eu gosod fel delweddau JPG. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i rai pobl sy'n defnyddio ffurf hawdd ei ddarllen gael at yr wybodaeth. Mae hyn yn methu maen prawf llwyddiant 1.4.9 CHCG 2.1 (delweddau'r testun). Bydd y delweddau sydd eisoes yn bod yn cael eu hadolygu a'u diddymu pe byddai dim angen yr hysbysiad. Rydym yn cynllunio i ychwanegu testun addysgiadol i bob hysbysiad JPG o hyn ymlaen.

Efallai bod pennawd rhai hysbysiadau JPG yn anodd eu darllen. Mae hyn yn methu maen prawf llwyddiant 1.1.1 CHCG 2.1 (cynnwys di-destun). Byddwn yn adolygu'r rhain erbyn Rhagfyr 2020 a byddwn yn sicrhau y bydd pob pennawd yn y dyfodol yn glir.

### Baich Anghymesur

#### Llywio a mynediad at wybodaeth

Nid oes unrhyw ffordd i sgipio'r cynnwys sy'n ail-ddangos ym mhennyn tudalen (er enghraifft, y dewis 'sgipio i'r prif gynnwys').

Nid yw'n bosibl bob amser i newid cyfeiriadaeth y ddyfais o lorweddol i fertigol heb ei gwneud yn fwy anodd i weld y cynnwys.

Nid yw'n bosibl i ddefnyddwyr newid maint y testun heb i rywfaint o'r cynnwys orgyffwrdd.

#### Offer a thrafodiadau rhyngweithiol

Rydym wedi asesu'r gost o gyweirio problemau llywio a chael mynediad at wybodaeth, a chyda'r offer a thrafodiadau rhyngweithiol. Rydym o'r farn y byddai gwneud hynny nawr yn

faich anghymesur o ran ystyr y rheoliadau hygrychedd. Fe wnawn asesiad arall pan ddaw'n amser i adnewyddu cytundeb y cyflenwr, hynny'n debygol i fod yn 2022.

## **Cynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygrychedd**

### **PDFs a dogfennau eraill**

Mae rhai o'n PDFs a'n dogfennau eraill yn hanfodol ar gyfer darparu ein gwasanaethau. Er enghraifft, mae gennym PDFs sydd â gwybodaeth am Agendâu a chofnodion. Rydym yn cynllunio i gyhoeddi'r rhain gyda thudalennau HTML hygrych ym mis Rhagfyr 2020.

Nid yw'r rheoliadau hygrychedd yn gofyn inni gyweirio PDFs neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd cyn 23 Medi 2018 os nad ydynt yn hanfodol i ddarparu'n gwasanaethau. Er enghraifft, nid ydym yn cynllunio i gyweirio cofnodion a gyhoeddwyd fel PDF cyn y dyddiad hwn.

Bydd unrhyw PDFs newydd neu ddogfennau Word newydd a gyhoeddwn yn bodloni safonau hygrychedd.

## **Yr hyn rydym yn ei wneud i wella hygrychedd**

Byddwn yn gwella'r ffordd y cyhoeddir y cofnodion a'r agendâu ar ein gwefan fel y gall unigolion sy'n defnyddio meddalwedd darllenydd sgrin gael mynediad at yr wybodaeth.

## **Darparu'r datganiad hygrychedd hwn**

Darparwyd y datganiad hwn ar 28/3/2021. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ar 28/3/2021

Bu i'r wefan hon gael ei rhoi ar brawf ddiwethaf ar 28/3/2021. Gweithredwyd y prawf gan Neil Summers

Archwiliwyd detholiad o'r tudalennau ar y wefan.